# Disgrifiad Swydd

**CYFARWYDDIAETH:** Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

**ADRAN:** Gofal Cymdeithasol i Blant

**SWYDD:** Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol – Arwyddion Diogelwch

**GRADD Y SWYDD:** GR13

**YN ATEBOL I'R:** Prif Swyddog – Trawsnewid Gwaith Cymdeithasol

---

**Diben y Swydd**

Gweithio ochr yn ochr â'r Prif Swyddog – Trawsnewid Gwaith Cymdeithasol wrth weithredu Arwyddion Diogelwch o fewn Gofal Cymdeithasol Plant i sicrhau bod y fframwaith ymarfer hwn sy'n seiliedig ar gryfderau, ac sy'n canolbwyntio ar atebion yn cael ei ymgorffori yn ymarfer pob tîm.

Hwyluso goruchwyliaeth gan gymheiriaid, yn ogystal â darparu mentora a chymorth gydag ymweliadau, mapio achosion a chyfarfodydd teuluol.

Cydweithio â'r Prif Swyddog - Trawsnewid Gwaith Cymdeithasol i gryfhau a datblygu gwybodaeth ar draws gwasanaethau a defnyddio Arwyddion Diogelwch drwy fodelu arfer da a chydweithio â phlant, pobl ifanc, teuluoedd, gofalwyr ac asiantaethau partner.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Gweithio gyda'r Prif Swyddog – Trawsnewid Gwaith Cymdeithasol mewn perthynas ag ymgorffori ymarfer Arwyddion Diogelwch ar draws Gofal Cymdeithasol Plant drwy ddatblygu sgiliau a gwybodaeth eraill a chyflawni nod sefydliadol ac ymarfer y fframwaith ymarfer.
- Cynnal ymweliadau ar y cyd ag Uwch Ymarferwyr a Gweithwyr Cymdeithasol a chynorthwyo Rheolwyr Tîm drwy ddarparu hyfforddiant, mentora, cyngor/arweiniad proffesiynol a goruchwyliaeth i gymheiriaid, er mwyn ymgorffori'r ethos Arwyddion Diogelwch yn y gwasanaeth i blant a'u teuluoedd.
- Cynorthwyo'r Prif Swyddog i gyflwyno briffiadau gydag asiantaethau partner i gynorthwyo a chryfhau'r wybodaeth am Arwyddion Diogelwch a'r diddordeb ynddo.
- Cynorthwyo Gweithwyr Cymdeithasol newydd gymhwyso a sefydlu staff gyda dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r fframwaith ymarfer.
- Cynorthwyo'r Prif Swyddog – Trawsnewid Gwaith Cymdeithasol a Rheolwr Datblygu'r Gweithlu i nodi unrhyw fylchau ac anghenion hyfforddi mewn perthynas ag arwyddion diogelwch.

- Datblygu perthnasoedd gwaith gydag asiantaethau partner a dylanwadu arnynt, sy'n cynorthwyo ac yn hyrwyddo datblygiad parhaus Arwyddion Diogelwch gydag asiantaethau partner.
- Darparu trafodaethau achos myfyriol un i un gyda staff er mwyn datblygu eu sgiliau a'u hyder wrth ddefnyddio Arwyddion Diogelwch fel eu fframwaith ymarfer.
- Cydweithio â Gweithwyr Cymdeithasol mewn achosion cymhleth.
- Rhoi adborth i'r Prif Swyddog – Trawsnewid Gwaith Cymdeithasol am gryfder ymarfer ym mhob tîm. Cynnal gwybodaeth dda o ymchwil a dysgu a chymryd rhan mewn amrywiaeth o brosiectau, sicrhau ansawdd, dadansoddi gwybodaeth am berfformiad i nodi bylchau a chryfderau mewn ymarfer a gwneud argymhellion ar gyfer gwella.
- Gweithio gyda'r fframwaith deddfwriaethol, rheoleiddiol a pholisi'r Gwasanaeth Diogelu a'r Gwasanaeth Asesu.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion ac Ansawdd neu'r Tîm IAA a Diogelu.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol – Arwyddion Diogelwch

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol neu gymhwyster Gwaith Cymdeithasol arall a gydnabyddir gan Ofal Cymdeithasol Cymru.<br>• Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.<br>• PQ – Rhaglen Atgyfnerthu os ydych wedi cymhwyso ar ôl mis Ebrill 2016.<br>• Cymhwyster Addysgwr Ymarfer, e.e. PQ6 EPL. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • O leiaf 3 blynedd o brofiad ôl-gymhwyso mewn gwaith cymdeithasol plant.<br>• Gwybodaeth am offer ac ymarfer methodoleg Arwyddion Diogelwch a phrofiad o hyn.<br>• Dealltwriaeth gadarn o ddeddfwriaeth sy'n sail i Ofal Cymdeithasol Plant a gwybodaeth am hyn.<br>• Dealltwriaeth gadarn o weithdrefnau Diogelu Cymru a gwybodaeth am hyn.<br>• Profiad o weithio gyda theuluoedd gan gynnwys cynnal asesiadau a datblygu cynlluniau teuluol i gynorthwyo a diogelu plant.<br>• Profiad o weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau/asiantaethau eraill i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth a Phrofiad (parhad)** | • Profiad o ddarparu, hyfforddi a chynorthwyo eraill gan gynnwys goruchwylio staff fel myfyrwyr, gweithwyr cymdeithasol a/neu addysgu ymarfer i ddatblygu a mentora eraill.<br>• Profiad o roi cyflwyniadau a briffiadau i weithwyr proffesiynol ac asiantaethau partner.<br>• Profiad o reoli llwyth achosion.<br>• Profiad uniongyrchol o weithio gyda phlant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.<br>• Dealltwriaeth o ddyletswydd gydraddoldeb cyrff cyhoeddus.<br>• Profiad uniongyrchol o ysgrifennu asesiadau risg a chynlluniau gofal llys.<br>• Profiad uniongyrchol o waith llys. | Ydy<br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol<br><br>Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu meithrin perthnasoedd gwaith adeiladol â chydweithwyr ac asiantaethau eraill.<br>• Gallu cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol, cyflwyno a deall gwybodaeth gymhleth. .<br>• Gallu blaenoriaethu a chymryd cyfrifoldeb am reoli llwyth gwaith a pherfformiad.<br>• Gallu asesu a dadansoddi risg yn y cyd-destun ehangaf.<br>• Uniondeb personol a phroffesiynol.<br>• Gallu gweithio'n hyblyg ac yn rhagweithiol.<br>• Sgiliau TG effeithiol i wneud y defnydd gorau posibl o'r cyfryngau cyfathrebu sydd ar gael i ledaenu gwybodaeth a chynnal cofnodion seiliedig ar gyfrifiaduron yn unol â gofynion y llywodraeth. | Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy<br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol (parhad)** | • Gallu helpu eraill i ddysgu a datblygu drwy gyflwyno hyfforddiant, cynnig cyngor, ysgogi, mentora a chefnogi Uwch Ymarferwyr/Gweithwyr Cymdeithasol.<br>• Trwydded yrru gyda mynediad i gerbyd.<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol |